

alcohol ond am resymau meddygol, mecanyddol neu wneuthurol. Mabwysiadwyd cynllun cyffelyb gan 12 ddeuddeg talaith erbyn 1857. Dyma oedd gwraidd y Gwaharddiad Cenedlaethol a ddaeth yn ddeddf gwlad ym 1919.

Llewelyn Parri.

Cyflwynir ni i ymson glasurol y meddwyn Llywelyn Parri sy'n dewis mynd yn ôl at ei deulu. Derbyniodd Morfydd ei wraig lythyr y bore hwnnw gan Alice ei chwaer, o Paris yn adrodd am ei dioddefar law ei gŵr. Daw Mr Powell i'r drws a chynnig mynd i Ffrainc i'w chyrchu gartref. Un nos Sul clyw Llywelyn ŵr yn areithio ar ddirwest. Achubir ef, dechreua areithio ei hun yng nghapel Tabernacl. Sylweddola faint y dioddefaint a achosodd. Daw Edward Powell gartref wedi llwyddo i achub Gwen o ddrws y bedd. Rhoddir eu hen gartref yn ôl iddynt, daw tro ar fyd ar bawb gyda DIRWEST WEDI ENNILL Y DYDD!

A dyma brif linellau'r ddwy nofel. Mae nofel Llew Llwyfo yn agor a diweddu'n wahanol i nofel Metta Victoria Fuller a thaflodd hefyd fân olygfeydd dramatig a sentimental i mewn sydd ddim yn gwella yr un sill ar y cyfansoddiad.

Y casgliad anorfod wedi darllen a chymharu'r ddwy yw fod honiad Y Punch Cymraeg yn gwbl ddilys ym 1860 ac mai doeth iawn oedd i Lew Llwyfo wneud dim am y peth oedd yn gwbl groes i'w reddf naturiol; - ffrwyno ei dymer wyllt. Anghofwyd yn llwyr am y lladrad. Ond daliodd Llew i odro clod ac arian o'r nofel weddill ei fywyd. Bu Metta Victoria Fuller farw'n gyfoethog. Roedd Llew Llwyfo druan ar y llaw arall ar y grindil.

*Eryl Wyn Rowlands.
Penarth.*

Rhoddion

Nia Henson, Aberystwyth	£2.50
William Goldsmith, Tyne & Wear	£12.50
H. A. Morris, Pwllheli	£2.50
Robyn Williams, Caerdydd	£2.50
Mari Ellis, Aberystwyth	£10
John Daniel, Bangor	£10
Emyr Evans, Cheltenham	£2.50
Y Parch Richard Jones, Rhydaman	£10
Ieuan Davies	£15
John Elwyn Edwards, Rhuddlan	£2.50
Iona Piling, Llanfairfechan	£2.50
Helga Martin, Ysbyty Ifan	£10
Owen Roberts, Caerdydd	£15
William Williams, Caerdydd	£10
Cathie Cricieth	£2.50
Anwen M. Breeze Jones, Talsarnau	£7.50
Emrys Evans, Cheltenham	£2.50

CYWIRIADAU

Oherwydd llithriad teipio, parodd Philip Lloyd i'w arwr, yr arloeswr ffilm Arthur Cheetham, fyw am dros gan mlynedd! Yn ei ail ysgrif ar 'Ddelweddau Byw o'r Gorffennol' yn rhifyn Gaeaf 2004 o'r *Casglwr*, dywedodd i Cheetham ddechrau dangos ffilmiau yn Rhagfyr 1986 – yn lle Rhagfyr 1896.

Yn yr adolygia ar lyfr Philip Lloyd, *Gloriour Rhyl, a peep at its past* (ar gael am £5.95 oddi wrth yr awdur) anghofwyd rhoi ei gyfeiriad: Hafan Deg (pa enw sy'n well ar gartref un a fu'n byw yn Y Rhyl am flynyddoedd maith?), 4 Bryn Noddfa, Yr Wyddgrug, Sir Y Fflint, CH7 1YR.

AELODAU PWYLLGOR CYMDEITHAS BOB OWEN YN YMDDEOL

Penderfynodd Dafydd Jones yr Hen Bost; Gwilym Tudur, Siop y Pethe a Huw Ceiriog ymddeol wedi blynyddoedd o wasanaeth clodwiw. Allwn ni ddim ond diolch o galon iddynt am eu llafur cariad ar hyd y blynyddoedd ac am eu brwdfrydedd a'u cefnogaeth yn codi'r gymdeithas i'r hyn y mae heddiw.

Dalier Sylw

A wnewch chi ddychwelyd eich ffurflenni
Rhodd Gymorth i'r trysorydd yn ddiymdroi
os gwelwch yn dda.

Does dim raid i'r aelod dalu'r un ddimai
goch – yr unig beth sydd ei angen
yw i chwi lofnodi'r ffurflen
a'i dychwelyd.

Golyga hyn y byddai'r Gymdeithas ar ei
hennill o £1.50 y pen

***Mae dau lyfryn raffl
yn gynwysedig hefo'r casglwr
unwaith eto.***

***Gwnewch eich gorau i'w
gwerthu.***

***Mae yr elw yn talu am logi
Pabell ar Faes y Genedlaethol***